# SL(5)723 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2021

## Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau'n diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol) a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 (y Rheoliadau Cyfyngiadau).

Mae cyngor a gafwyd gan y Gydganolfan Bioddiogelwch yn dangos bod y risg i iechyd y cyhoedd yn sgil mynychder a lledaeniad cymunedol amrywiolyn newydd o'r coronafeirws yn yr Ariannin; Brasil; Bolivia; Chile; Colombia; Ecuador; Guiana Ffrengig; Guyana; Gweriniaeth Cabo Verde; Gweriniaeth Panamá; Paraguay; Periw; Portiwgal; Suriname; Uruguay; a Venezuela wedi cynyddu.

O ran y gwledydd a'r tiriogaethau hyn, mae'r Rheoliadau yn:

- diwygio Atodlen 3A i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, sy'n rhestru'r gwledydd hynny a'r tiriogaethau hynny sy'n ddarostyngedig i fesurau ychwanegol yn rhinwedd rheoliadau 12E a 12F o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol;
- diwygio'r Rheoliadau Cyfyngiadau er mwyn gosod gofynion ynysu llymach ar bobl sydd wedi bod mewn un o'r gwledydd hynny a'r tiriogaethau hynny o fewn y cyfnod o 10 niwrnod cyn 4.00am ar 15 Ionawr 2021 ac ar unrhyw un ar yr un aelwyd â phobl o'r fath;
- cywiro testun Cymraeg paragraff 48 o Atodlen 4 i'r Rheoliadau Cyfyngiadau i egluro y caniateir i gartrefi arddangos aros ar agor mewn ardaloedd Lefel Rhybudd 4 – pwynt a godwyd mewn adroddiad blaenorol gan y Pwyllgor.

Cafwyd cyngor hefyd gan y Gydganolfan Bioddiogelwch bod y risg i iechyd y cyhoedd yn sgil mynychder a lledaeniad y coronafeirws yn Aruba, ynysoedd Açores, Bonaire, Sint Eustatius a Saba, Chile, Madeira a Qatar wedi cynyddu.

O ran y gwledydd hyn a'r tiriogaethau hyn, mae'r Rheoliadau yn:

- eu hepgor o'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt sydd wedi eu cynnwys o dan y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol;
- gwneud darpariaeth drosiannol mewn cysylltiad â'r newid yn eu statws.

## Gweithdrefn

Gwneud cadarnhaol

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd.

Mae'n rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r Rheoliadau o fewn 28 diwrnod (ac eithrio diwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gwnaed er mwyn iddynt barhau i gael effaith.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y tri phwynt technegol a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Daeth y Rheoliadau i rym cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Nodwn yr hysbysiad a ddarparwyd gan Vaughan Gething AS, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, mewn llythyr at y Llywydd ar 14 Ionawr 2021, sy'n nodi'r canlynol:

> *"Heddiw, rwyf wedi gwneud y Rheoliadau yma o dan adrannau 45B, 45C(1) a (3), 45F(2) a 45P o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984. Daw'r Rheoliadau hyn i rym yn rhannol am 4.00am ar 15 Ionawr 2021 gyda'r darpariaethau sy'n weddill yn dod i rym am 4.00am ar 16 Ionawr 2021. Rwy'n amgáu copi o'r offeryn statudol ac yr wyf yn bwriadu gosod yr offeryn a'r memorandwm esboniadol cysylltiedig pan fydd yr offeryn statudol wedi'i gofrestru.*
>
> *"Yn unol ag adran 4(1) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, rwy'n eich hysbysu y bydd y Rheoliadau hyn yn dod i rym yn rhannol cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Ystyrir bod hyn yn ymateb angenrheidiol i'r newyddion bod amrywiolyn newydd o Covid-19 wedi'i ganfod yn gyntaf ym Mrasil, sy'n cynyddu'r risg a achosir gan deithwyr i Gymru, a hefyd yn sicrhau y gellir cynnal ymagwedd pedair gwlad ar deithio rhyngwladol."*

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodwn gyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros unrhyw ymyrraeth bosibl â hawliau dynol. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> *"Nid yw'r diwygiadau yn y Rheoliadau hyn yn newid y ffaith fod y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop; mae'r Llywodraeth o'r farn y gellir eu cyfiawnhau at ddiben atal lledaeniad clefydau heintus a/neu y caniateir ymyriad ar y sail ei fod yn anelu at gyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r Llywodraeth o'r farn hefyd eu bod yn gymesur."*

Mae'r Rheoliadau'n diwygio'r Rheoliadau Cyfyngiadau yn ogystal â'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol. Er nad oes cyfeiriad penodol at y Rheoliadau Cyfyngiadau yn y paragraff hwn, rydym yn cydnabod, fel gyda'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, ei bod yn annhebygol y bydd y Rheoliadau'n newid materion o ran hawliau dynol o dan y Rheoliadau Cyfyngiadau. Byddai'n cynorthwyo'r Pwyllgor pe bai modd egluro'r sefyllfa mewn perthynas â'r Rheoliadau Cyfyngiadau.

At hynny, mae adran 5(4) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 yn nodi nad yw Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop yn rhan o gyfraith ddomestig ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu (23:00 ar 31 Rhagfyr 2020) neu wedi hynny. O'r herwydd, byddai darparu esboniad am y cyfeiriad at y Siarter yn y Memorandwm Esboniadol yn cynorthwyo'r Pwyllgor.

**3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodwn na chynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol ar y Rheoliadau. Yn benodol, nodwn y paragraffau a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> *"Oherwydd y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn."*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r ail bwynt rhinweddau.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**20 Ionawr 2021**